

Pryderon Ynglŷn ag Arferion Diogelu Rhyngasiantaethol (Anghytundebau Proffesiynol)

Protocol Amlasiantaethol ar gyfer Ymarferwyr sy'n gweithio gyda
Phlant, Pobl Ifainc ac Oedolion sy'n agored i Niwed

Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg	Dyddiad: Medi 2019	Statws: Wedi'i gymeradwyo Medi 2019
Awdur: N Kingham/PPG	Fersiwn blaenorol: Rhagfyr 2018	Dyddiad Adolygu: Medi 2021

1. CYFLWYNIAD

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei pharatoi i gefnogi ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifainc neu oedolion sydd mewn perygl, i wneud penderfyniad pan fyddan nhw'n anghytuno neu pan fydd pryder gyda nhw mewn perthynas ag arferion diogelu rhyngasiantaethol.

Fydd gweithwyr proffesiynol ddim bob amser yn cytuno ynglŷn â pha gamau sydd orau i ddiogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl. Yn y mwyafrif o achosion bydd y materion yma'n cael eu datrys drwy drafod a negodi rhwng y gweithwyr proffesiynol dan sylw. Mae'n bwysig bod gan weithwyr proffesiynol yr hyder i gwestiynu barn gweithwyr proffesiynol eraill wrth weithio gyda phlant ac oedolion sy'n agored i niwed. Mae'r egwyddor yma'n berthnasol i staff o bob asiantaeth sy'n gweithio ym maes amddiffyn plant ac oedolion.

Mae hyfforddiant priodol, eglurder ynghylch eu swyddogaethau a chyfrifoldebau proffesiynol eu hunain, asiantaethau eraill a sefydliadau yn annog staff i fod â'r hyder i gyfrannu at waith rhyngasiantaethol ac amlddisgyblaethol mewn modd effeithiol, sy'n cynnwys cwestiynu barn pobl broffesiynol eraill.

Mae llawer o adolygiadau arfer oedolion a phlant ac adolygiadau achos difrifol, yn genedlaethol ac yn lleol, wedi nodi amharodrydd ymddangosiadol i herio gwneud penderfyniadau rhyngasiantaethol. Mae'r adolygiadau wedi nodi bod un neu fwy o weithwyr proffesiynol yn poeni am benderfyniad sydd wedi'i wneud gan asiantaeth arall, ond wedi methu â dilyn proses gadarn.

Mae her broffesiynol yn weithgaredd cadarnhaol ac yn arwydd o arfer proffesiynol da, sefydliad iach a gwaith aml-asiantaeth effeithiol.

Dydy'r protocol yma ddim yn disodli'r gweddill, a rhaid ei ddarllen ar y cyd â Gweithdrefnau Diogelu Cymru.

Amcan y ddogfen yma yw nodi'n glir bod gyda phob gweithiwr proffesiynol gyfrifoldeb dros:

- rhoi blaenoriaeth i les plant ac oedolion sydd mewn perygl;
- herio mewn modd adeiladol os bydd anghytundebau'n codi;
- cymryd camau dilynol i sicrhau bod plant ac oedolion sydd mewn perygl yn cael eu diogelu a'u hamddiffyn yn ddigonol.

2. CWMPAS

Gall anghydfodau neu bryderon godi mewn nifer o feysydd, er enghraifft barn wahanol mewn perthynas â throthwyon, ond maen nhw'n fwyaf tebygol o godi o ganlyniad i safbwyntiau gwahanol ynghylch trothwyon, diffyg dealltwriaeth o swyddogaethau a chyfrifoldebau, yr angen am gamau gweithredu neu faterion cyfathrebu.

Mae'r canlynol yn enghreifftiau o amgylchiadau pan fo'r protocol yma'n berthnasol, ond dydy'r rhestr yma ddim yn unigryw ac mae modd i sefyllfaoedd eraill fod yn berthnasol.

- Ymateb i atgyfeiriad e.e. anghytuno ynghylch y penderfyniad i gynnal ymchwiliad adran 47, cychwyn gweithdrefnau diogelu oedolion, cynnal asesiad cymesur neu Dim Camau Pellach (gweler Gweithdrefnau Diogelu Cymru)
- Methiant asiantaeth i gydweithredu â mynd i'r afael â phryderon diogelu trwy wrthod darparu gwybodaeth y gofynnwyd amdani neu gymryd rhan yn y broses Ddiogelu
- Cynnal trafodaeth neu gyfarfod strategaeth (gweler Gweithdrefnau Diogelu Cymru)
- Canlyniad archwiliad meddygol e.e. cydbwysedd rhwng barn feddygol a phryderon gwaith cymdeithasol
- Penderfyniad ynghylch yr angen am, neu ganlyniad, ymchwiliad diogelu oedolion
- Anghytuno ag unrhyw agwedd ar y broses Amddiffyn Plant e.e. safbwyntiau gwahanol am drothwyon, diffyg dealltwriaeth o rolau a chyfrifoldebau, materion cyfathrebu
- Materion sy'n codi o Gynadleddau Amddiffyn Plant e.e. penderfyniad p'un ai i ymgynnull ai peidio, penderfyniad ynghylch cofrestru amddiffyn plant a / neu'r broses gafodd ei dilyn ar gyfer dod i'r penderfyniad hwnnw; pryderon ynghylch y modd y mae'r gynhadledd yn cael ei chynnal
- Swyddogaeth y Grŵp Craidd neu wahaniaeth proffesiynol yn ymwneud ag arfer diogelu rhyngasiantaethol (Pryder ynghylch tuedd ac oedi i gael ei drin ar wahân drwy Ganllawiau Grŵp Craidd)
- Penderfyniad i ddod â gweithdrefnau diogelu oedolion i ben
- Mae gweithiwr proffesiynol yn teimlo nad yw plentyn neu oedolyn sy'n agored i niwed yn cael ei ddiogelu'n ddigonol
- Achos cyfreithiol i ddiogelu plentyn neu oedolyn sy'n agored i niwed

Cyn defnyddio'r protocol yma, dylai'r ymarferydd geisio adfer anghytundebau neu bryderon proffesiynol gyda'i swyddog cyfatebol yn yr asiantaeth dan sylw. Dylid gwneud hyn cyn gynted â phosibl, gyda golwg ar fynd i'r afael â'r pryder, unioni unrhyw wahaniaethau a chytuno ar gamau gweithredu os bydd angen.

Mae'r protocol rhyngasiantaethol yma yn berthnasol i bob cam o'r broses amddiffyn plant ac oedolion. Mae'n berthnasol i'r holl asiantaethau sy'n gyfrifol am ddiogelu plant, oedolion sydd mewn perygl a'u teuluoedd. Mae'n darparu canllawiau ynghylch pa gamau sydd i'w cymryd os oes anghytundeb rhwng gweithwyr proffesiynol am y ffordd orau i ddiogelu ac amddiffyn plentyn, person ifanc neu oedolyn penodol sydd mewn perygl.

Os yw'r gwahaniaeth proffesiynol wedi codi ar unrhyw adeg oherwydd diffyg eglurder ynghylch gweithdrefn neu absenoldeb gweithdrefn, dylai'r aelod staff proffesiynol / unigol hefyd ofyn am gyngor gan ei gynrychiolydd o Fwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg.

Dydy'r polisi yma **ddim** yn berthnasol yn yr amgylchiadau canlynol:

- Anghytundebau neu bryderon o fewn asiantaeth unigol. Cyfrifoldeb pob asiantaeth yw sicrhau bod gyda nhw drefniadau cadarn yn eu lle i unioni eu hanghytundebau neu bryderon mewnol.
- Cwynion gan blant, pobl ifainc, oedolion sy'n agored i niwed neu deuluoedd y dylid eu cynghori i ddilyn y weithdrefn gwynion berthnasol.
- Cwynion ynglŷn â gweithiwr proffesiynol penodol. Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd trefn gwyno'r sefydliad perthnasol yn cael ei defnyddio. Dylai unrhyw gŵyn gael ei chyflwyno mewn ysgrifen i reolwr llinell y gweithiwr proffesiynol a dylai copi gael ei anfon at y swyddog sydd â'r prif gyfrifoldeb dros ddiogelu yn ei sefydliad.
- Pryderon sy'n codi o Gynadleddau Amddiffyn Plant, gan gynnwys pryderon ynghylch penderfyniad y Gynhadledd. Dylai'r rhain gael eu codi fel maen nhw'n cael eu nodi yn y **Weithdrefn Ddwysáu ar gyfer Datrys Problemau a Materion ar gyfer Cadeiryddion Cynadleddau mewn perthynas â Chynadleddau Amddiffyn Plant**. Bwriad y weithdrefn yw mynd i'r afael â gwahaniaethau proffesiynol sydd wedi codi mewn Cynadleddau Amddiffyn Plant, yn ogystal â phryderon Cadeiryddion Cynhadledd ynghylch penderfyniad y Gynhadledd a / neu'r Cynllun Diogelu Gofal a Chefnogaeth.
- Lle mae materion diffyg consensws yn ymwneud â gwahaniaethau ymarferwyr efallai y bydd rhaid defnyddio'r protocol yma yn nes ymlaen.
- Lle mae pryderon am blentyn sydd ar y gofrestr amddiffyn plant sydd ddim yn cael ei amddiffyn yn ddigonol. Os oes gan unrhyw weithiwr proffesiynol bryderon dydy plentyn sydd ar y gofrestr amddiffyn plant ddim yn cael ei amddiffyn yn ddigonol, rhaid dwyn hyn i sylw ei reolwr a'i weithiwr amddiffyn plant proffesiynol penodedig yn ogystal â'r gweithiwr allweddol a rheolwr carfan y gwasanaethau cymdeithasol sy'n goruchwyllo'r gweithiwr allweddol. Yn eu habsenoldeb, neu, os yw rheolwr y garfan yn cael ei ystyried yn annigonol, rhaid hysbysu'r uwch reolwr sy'n gyfrifol am amddiffyn plant yn y gwasanaethau cymdeithasol.

3. PROSES

Rhaid i weithwyr proffesiynol sicrhau bod datrysiad yn cael ei gyrraedd o fewn yr amserlen fyrraf bosibl gyda diogelwch y plentyn neu'r oedolyn sy'n agored i niwed yn flaenoriaeth.

Dylai anghydfodau neu bryderon gael eu hunioni mor gynnar â phosibl yn y broses. Serch hynny, os yw'r plentyn neu'r oedolyn mewn perygl uniongyrchol, dylai disgresiwn gael ei ddefnyddio ynglŷn ag ar ba gam y dylid cychwyn.

Ddylai dilyn yr arweiniad yma ddim arwain at oedi o ran y camau gweithredu i amddiffyn diogelwch plentyn neu oedolyn sydd mewn perygl.

Os oes anghytundebau neu bryderon proffesiynol rhyngasiantaethol sydd heb eu hunioni, dylai'r camau canlynol gael eu cymryd:-

CAM 1 – YMATEB ASIANTAETH UNIGOL

Os nad oes modd i unigolion unioni'r anghytundeb neu'r pryder, dylai'r gweithiwr proffesiynol godi'i bryderon ar unwaith gyda'i reolwr uniongyrchol. Fel arall, dylai geisio cyngor gan y person yn ei sefydliad sydd wedi'i bennu'n swyddog arweiniol ar gyfer diogelu plant a/neu oedolion sydd mewn perygl.

Dylai'r rheolwr/swyddog diogelu arweiniol drafod y pryderon gyda'r swyddog cyfatebol yn yr asiantaeth/sefydliad arall a cheisio datrys y mater o fewn 5 diwrnod gwaith.

Os dydy'r ymarferydd ddim yn fodlon gyda'r ffordd mae'i reolwr wedi delio â'r mater, dylai gyfeirio at ei bolisi/prosesau chwythu'r chwiban neu weithdrefnau uwchgyfeirio.

CAM 2 - UWCHGYFEIRIO I FWRDD DIOGELU CWM TAF MORGANNWG

Os na chaiff y mater ei ddatrys ar Gam 1, dylai rheolwr (neu'r gweithiwr proffesiynol arweiniol) gyfeirio'r mater ar unwaith at Uned Fusnes y Bwrdd Diogelu gan ddefnyddio'r templed sydd wedi'i atodi (Atodiad 1).

Bydd yr Uned Fusnes yn sicrhau bod y pryder yn cael ei gofnodi ac yn cydlynu datrysiad ar unwaith rhwng yr asiantaethau partner. Bydd gan yr asiantaeth ymateb 10 diwrnod gwaith i gyflwyno'r ffurflen i'r Uned Fusnes. Lle does dim modd cyflawni hyn neu gyrraedd datrysiad, bydd y pryder yn cael ei godi yng nghyfarfod nesaf Is-grŵp Sicrhau Ansawdd perthnasol y Bwrdd.

Bydd yr Uned Busnes yn sicrhau bod canlyniad y cyfarfod yn cael ei gofnodi a bod adborth yn cael ei roi i'r asiantaethau dan sylw. Dylai'r asiantaethau dan sylw gadw copi o'r ddogfennaeth yn y cofnodion achos.

CAM 3 - UWCHGYFEIRIO I GADEIRYDD BWRDD DIOGELU CWM TAF MORGANNWG

Os na chaiff yr anghytundeb neu'r pryder ei unioni drwy'r broses Sicrhau Ansawdd, bydd Cadeirydd yr Is-grŵp Sicrhau Ansawdd yn trefnu bod y mater yn cael ei uwchgyfeirio i Gyd-gadeirydd y bwrdd fydd yn annibynnol o'r achos.

Bydd penderfyniad yn cael ei wneud gan y Cyd-gadeirydd ynglŷn ag a ddylai adolygiad o'r achos dan sylw gael ei gynnal. Bydd y Cyd-gadeirydd yn hysbysu cynrychiolwyr yr asiantaethau o fewn 5 diwrnod ar ôl eu penderfyniad.

Os oes angen adolygiad, bydd Grŵp Adolygu Achosion Plant neu Oedolion priodol y Bwrdd yn ymgymryd ag ef, neu bydd cais yn cael ei wneud i'r asiantaeth unigol dan sylw i ymgymryd ag adolygiad. Yn achos yr olaf, rhaid i'r asiantaeth unigol sicrhau bod aelod Bwrdd Diogelu annibynnol ar y panel adolygu. Bydd yr Uned Fusnes yn cefnogi i sefydlu'r panel.

Ar ôl cwblhau'r adolygiad, bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg, sy'n nodi'r camau a gafodd eu cymryd a'r canlyniadau ar gyfer y plentyn/oedolyn sy'n agored i niwed. Bydd y pwyntiau dysgu allweddol yn cael eu dosbarthu i asiantaethau fel bo'n briodol.

Efallai bydd rhai anghydfodau neu bryderon sydd mor sensitif/ddifrifol, fel bydd angen dwysáu'r rhain yn syth i Gam 3. Gall hyn gynnwys:

- Achosion a fydd o ddiddordeb mawr i'r cyfryngau/y byd gwleidyddol
- Achosion sydd wedi arwain (neu a all fod wedi arwain) at farwolaeth neu niwed difrifol
- Lle mae ymateb effeithiol yn gofyn am gydlyniad aml-asiantaeth ar lefel uwch reolwr i reoli bygythiad, risg a niwed.

Dylai unrhyw anghydfodau neu bryderon o'r fath gael eu trafod ar unwaith gyda swyddog diogelu arweiniol yr asiantaeth unigol.

Bydd Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg yn derbyn adroddiadau diweddarau ar bob pryder Cam 3 wrth iddyn nhw godi.

MONITRO AC ADRODD

Mae pob asiantaeth yn gyfrifol am gofnodi, monitro ac archwilio'r defnydd o'r protocol yma.

Mae Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg yn hyrwyddo her iach o fewn ymarfer aml-asiantaeth ac mae'n ddyletswydd arno i ddwyn asiantaethau i gyfrif am eu bod yn gweithredu trefniadau diogelu yn eu sefydliad. O dan y ddyletswydd yma bydd Uned Fusnes Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg yn cofnodi'r wybodaeth ynghylch achosion sy'n cyrraedd camau 2 a 3. Bydd yr Is-grŵp SA perthnasol yn monitro ac yn archwilio'r defnydd o'r protocol yma.

PRYDERON YN YMWNEUD AG ARFERION DIOGELU RHYNGASIANTAETHOL

Mae'r ffurflen yma'n ategu Cam 2 o'r 'Protocol ar gyfer unioni pryderon ynglŷn ag arferion diogelu rhyngasiantaethol'. Dylai'r ffurflen gael ei defnyddio mewn achosion yn unig lle nad yw anghytundeb neu bryder proffesiynol wedi:

1. cael ei unioni ar lefel unigol
2. cael ei unioni drwy brosesau'r asiantaeth unigol, yn dilyn proses Cam 1

RHAN A - I'W LLENWI GAN YR ASIANTAETH SY'N CODI'R PRYDER

Enw'r plentyn/oedolyn sydd mewn perygl:

Dyddiad geni:

Cyfeiriad:

Rhif y digwyddiad (os yw'n berthnasol):

Enw(au) a Dyddiadau Geni Rhiant (neu Rieni)/ Cynhaliwr (neu Gynhalwyr):

ENW'R PERSON SY'N CODI'R PRYDER:			
SEFYDLIAD:			
RHIF FFÔN:		DYDDIAD:	
BETH YW'R MATER DAN SYLW?			
BETH SYDD WEDI'I WNEUD EISOES I UNIONI HYN?			

PA GANLYNIAD HOFFECH CHI'I WELD?

ASIANTAETH/ASIANTAETHAU Y MAE'N OFYNNOL IDDI HI/IDDYN NHW YMATEB:

RHAN B - I'W LLENWI GAN YR ASIANTAETH SY'N YMATEB, CYN PEN 10 DIWRNOD GWAITH O'I DERBYN

ENW'R PERSON SY'N YMATEB:

SEFYDLIAD:

RHIF FFÔN:

DYDDIAD:

YMATEB:

RHAN C - CYTUNDEB DOD I BENDERFYNIAD

DYDDIAD Y CAFODD ADBORTH EI ANFON AT YR ASIANTAETHAU DAN SYLW:	
WEDI DOD I BENDERFYNIAD (DO / NADDO):	
OS 'DO', NODWCH ENW'R PERSON SY'N DERBYN YR YMATEB:	

OS DYDY'R YMATEB DDIM YN EICH BODLONI CHI, UWCHGYFEIRIWCH HYN I'R GYFADRAN SICRHAU ANSAWDD:

RHAN D - I'W LLENWI GAN UNED FUSNES Y BWRDD DIOGELU

CYFEIRNOD UNED FUSNES Y BWRDD DIOGELU:		DYDDIAD Y RHODDWDYD GWYBOD I SICRHAU ANSAWDD:	
CANLYNIAD A CHAMAU DILYNOL:			